

yr Athro

Gweithgareddau UCAC yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd

Trefnodd TUC Cymru drafodaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym Moduan ar y pwnc 'Cydraddoldeb: Gwaith teg, hawliau'r Gymraeg yn y gweithle a'n cymunedau Cymraeg'.

Cynhaliwyd y sesiwn hon brynhawn dydd lau ym Mhabell y Cymdeithasau 2.

Roedd y sgwrs yn canolbwyntio ar sut y gall undebau a chyflogwyr yng Nghymru gydweithio ag eraill i hyrwyddo hawliau'r Gymraeg yn y gweithle.


Mae Llywodraeth Cymru, TUC Cymru a chyflogwyr eisoes yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i anelu tuag at greu Cymru fwy cyfartal, teg a chyfiawn, gyda gwaith teg yn rhan annatod ohoni.

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan sylfaenol o waith teg a chydaddoldeb yn y gweithle.

Trafodwyd cydraddoldeb yng nghyd-destun gwaith teg a hawliau'r Gymraeg yn y gweithle, gan fynegi barn ar brif flaenoriaethau o fewn y byd undebol, gweithleoedd a mudiadau i symud yr agenda Gymraeg yn y gweithle yn ei blaen.

Aelodau'r panel oedd Siân Gale, Llywydd Etholedig TUC Cymru, cadeirydd Pwyllgor Cydraddoldeb TUC Cymru a Rheolydd Sgiliau a Datblygiad i Prospect (sector Bectu); Robat Idris, cadeirydd Cymdeithas yr Iaith; Dr Dyfrig Jones, Llywydd UCU Cymru ym Mhrifysgol Bangor, aelod o Bwyllgor Gwaith UCU Prydain ac Uwch Ddarlithydd Ffilm ym Mhrifysgol Bangor; Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg; ac Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC.

Un o negeseuon pwysig Ioan oedd y rôl allweddol sydd gan bob aelod i'w chwarae. Dywedodd



'Anogwch aelodau eich undeb chi ac undebau eraill i sicrhau bod pob undeb yn rhan o'r bywyd Cymraeg a Chymreig.'

Wrth ystyried ei eiriau, cofiwn hefyd mai prin oedd y gynrychiolaeth undebol ar y maes. UCAC oedd yr unig undeb athrawon ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Cofiwn mai UCAC yw'r unig Undeb sy'n rhoi addysgwyr Cymru yn gyntaf.



Diolch i bawb a ddaeth i'n gweld ar stondin UCAC yn yr Eisteddfod eleni. Roedd y stondin yn lle braf i gael cwpanaid a sgwrs, yn lle i orffwys traed blinedig ac i wefru ffonau. Roedd cyfle i un enillydd ffodus i ennill hamper o gynhyrchion o Gymru.

Enillydd yr hamper oedd Shona sydd i'w gweld yn y llun yn derbyn ei gwobr oddi wrth Geraint Phillips, y Llywydd Cenedlaethol.

Rydym yn edrych ymlaen yn awr at Eisteddfodau 2024 – bydd UCAC yn bresennol ym Meifod ac ym Mhontypridd, yn Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau beth yr hoffech ei weld ar ein stondin, cysylltwch â ni.

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Geraint Phillips

Is-Lywydd: Ceri Dafydd Evans

Ysgrifennydd Cyffredinol: Ioan Rhys Jones

Is-ysgrifennydd Cyffredinol: Mererid Lewis Davies

Cydllynydd Yr Athro: Iona Davies

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC. Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: ucac@ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.



Shona a Geraint

Llongyfarchiadau!

Llongyfarchiadau calonnog i Ywain Myfyr, Swyddog Maes Cynorthwyol UCAC, ar gael ei anrhydeddu â gwisg werdd Yr Orsedd ym Moduan ym mis Awst, am ei gyfraniad gwerthfawr i gymaint o feysydd. Rydym yn falch iawn fod yr Eisteddfod Genedlaethol wedi cydnabod ei waith. Yn y deyrnged a ymddangosodd iddo ar wefan yr Eisteddfod cyfeirir at ei waith arloesol fel un o sefydlwyr Gŵyl Werin Geltaidd Dolgellau, ac fel aelod o grwpiau Cilmeri a Gwerinos. Yn y 1990au, cyd-sefydlodd Sesiwn Fawr Dolgellau, gŵyl ddylanwadol sy'n hyrwyddo cerddoriaeth Gymreig, Gymraeg a Cheltaidd, yn ogystal â'r iaith ei hun. Cyfeirir hefyd at ei frwdfrydedd rhyfeddol a'i egni diflino yn gweithio dros Ddolgellau, cerddoriaeth a'r Gymraeg.

Os am weld clip fideo byr o ymateb Ywain yn dilyn y seremoni i'w anrhydeddu, dilynwch y ddolen isod: 'Dwi'n dal mewn sioc!' -

[Urddo aelodau newydd i'r Orsedd - BBC Cymru Fyw](https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/saf/66473404)
(<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/saf/66473404>)



O Nerth i Nerth

➤➤➤ **Arian parod am gyflwyno aelodau newydd**

Am bob aelod y llwyddwch i'w recriwtio i UCAC, byddwch chi a'r aelod newydd yn derbyn £25 yr un.

*** Ni ellir manteisio ar y cynnig hwn ar y cyd ag unrhyw gynnig ymaelodi arall.*

Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth:
ucac@ucac.cymru | 01970 639950

Pam ymuno ag UCAC?

Dyma beth mae rhai aelodau wedi eu dweud yn ddiweddar am wasanaeth UCAC:

“Ymateb prydlon ac ateb clir i ymholiad”

“Hapus iawn gyda gwasanaeth UCAC”

“Mae'r gwasanaeth mae UCAC yn ei gynnig yn wych”

“Daliwch ati i sicrhau cefnogaeth wych i ni fel aelodau”

“Parhewch i weithio am well amodau gwaith i athrawon”

“Mae UCAC yn arbennig o dda am gefnogi ar bob adeg. Rwy'n hynod o lwcus i fod yn rhan o'r undeb.”

“Rwy'n hapus iawn gyda'r cymorth a'r cyngor rwy'n eu cael gan UCAC”

“Diolch am yr holl gefnogaeth – daliwch ati gyda'ch cefnogaeth barod”

“Daliwch ati i weithio mor galed dros ysgolion. Ni allaf ganmol yr undeb yn ddigon. Mae wedi bod yn gefnogol iawn i mi ers blynyddoedd maith.”

Dod i Nabod Cynrychiolydd Garmon Salisbury

Enw:

Garmon Salisbury

Ysgol:

Ysgol Glan Clwyd

Pynciau rydych yn eu dysgu neu gyfrifoldebau o fewn yr ysgol?:

Pennaeth Daearyddiaeth, Athro Dyniaethau.

Hoff ddiddordebau:

Cerdded mynyddoedd, teithio, chwarae'r trwmped, canu bas gyda Hogie'r Berfeddwlad.

Hoff le yng Nghymru a pham:

Cadair Bronwen a chwm Llawenog ym mynyddoedd y Berwyn. Llauer o atgofion da yn ffermio gyda Taid pan yn blentyn. Paradwys ar y Ddaear.

Hoff le bwyd:

Unrhyw le pan rwyf gyda theulu a ffrindiau.

Hoff bryd:

Cinio Dolig.

Byw neu farw, â phwy fuasech chi'n hoffi cwrdd i gael sgwrs dros baned?

Tolstoy a Jack Kerouac. Awduron anhygoel gyda chymaint i'w ddweud am fywyd.

Y perfformiad gorau i chi ei weld?

Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn chwarae The Planets gan Holst.

Pe baech yn gallu newid un peth am y system addysg yng Nghymru, beth fyddai hwnnw?


Gweld mwy o bwyslais ar waith cwrs er mwyn lleihau straen i bawb yn ystod cyfnod arholiadau.

Pam rydych chi'n mwynhau bod yn gynrychiolydd UCAC yn yr ysgol?

Hapus i helpu a chefnogi a diogelu hawliau fy nghyd-athrawon. Hoffwn ddiolch i Roger, Ioan a Rolant (Swyddogion Maes y Gogledd dros y blynyddoedd diwethaf) am eu cymorth sydyn, manwl a chlr pan wyf yn holi cwestiwn.



Beth am fod yn Gynrychiolydd UCAC?



A oes cynrychiolydd UCAC yn eich ysgol/coleg? Ydych chi'n gwybod pwy yw ef/hi?

Os nad oes cynrychiolydd yn eich lle gwaith, beth am wirfoddoli i wneud y gwaith? Mae'n waith pwysig a thrwy wneud y gwaith hwn, byddwch yn gwneud cyfraniad pwysig at waith yr undeb a hefyd at fuddiannau yr aelodau yn eich Undeb.

Noder hefyd fod rhai Awdurdodau Lleol yn rhoi rhywfaint o amser digyswllt i Gynrychiolydd Undeb mewn ysgol

Beth fydddech chi'n ei wneud?

- 1 Recriwtio aelodau newydd (cofiwch am O Nerth i Nerth)
- 2 Cyfathrebu – siarad gydag aelodau a gwranddo arnynt, arddangos deunydd ar hysbysfwrdd staff rhannu gwybodaeth undebol gydag aelodau

- 3 Trefnu cyfarfodydd ar gyfer aelodau
- 4 Ymateb i bryderon
- 5 Mynychu'r Gymdeithas Sir
- 6 Mynychu'r Gynhadledd Flynyddol

Sut fydddech chi'n elwa?

Bydddech yn

- Cael llawer o brofiadau diddorol a fydd yn ehangu eich gorwelion
- Clywed am y datblygiadau diweddaraf ym myd addysg
- Cael y cyfle i arwain a chynrychioli pobl a thrafod gydag eraill sy'n gwneud gwaith tebyg i chi mewn ysgolion eraill
- Bod yn gefn ac yn glust i gyd-aelodau

Beth amdani?

Cysylltwch ag UCAC (ucac@ucac.cymru) os oes diddordeb gennych.



Gwaith Ymchwil yn Sgil y Pandemig

Wrth sgwrsio gydag athrawon, mae'r effaith a gafodd y pandemig ar ddisgyblion ysgol yn fater sy'n brigo i'r wyneb yn aml ac felly nid yw'n syndod clywed am astudiaethau ymchwil sydd wedi eu gwneud ynghylch y mater hwn. Cwblhawyd ymchwil gan Brifysgol Aberystwyth ochr yn ochr â chydweithwyr o Brifysgol Bangor a Chanolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru - *Trosglwyddo addysg gynradd i uwchradd yn ystod pandemig Covid-19: astudiaeth ansoddol o brofiadau disgyblion cyfrwng Cymraeg a'u rhieni di-Gymraeg (PR0005) Awst 2023.*

Nod yr ymchwil oedd ystyried profiadau'r plant a'u teuluoedd, nodi'r ymyriadau a'r strategaethau a fyddai'n helpu rhieni i gefnogi eu plant wrth iddynt ddilyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir crynhoi'r meysydd ymchwil i bedwar maes:

- 1 Natur profiad disgyblion a oedd mewn ysgol cyfrwng Cymraeg ac o deulu di-Gymraeg wrth ddysgu gartref yn ystod y pandemig
- 2 Y cymorth ieithyddol a ddarparwyd i ddisgyblion yn ystod y pandemig ac ar ôl dychwelyd i'r ystafell ddosbarth a pha gymorth fyddai wedi bod yn ddefnyddiol i rieni a disgyblion
- 3 Profiad rhieni a natur y cymorth a roddwyd iddynt wrth gefnogi datblygiad sgiliau ieithyddol disgyblion yn ystod y cyfnod o ddysgu gartref ac ers dychwelyd i'r ysgol

- 4 Profiad yr uned deuluol yn ystod y cyfnod o ddysgu gartref ac ers dychwelyd i'r ysgol.

Mae'r gwaith ymchwil yn ystyried beth yw'r ffordd ymlaen a pha wersi sydd i'w dysgu ac yn dod i'r casgliadau canlynol:

- Yr angen i gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr ysgolion cynradd a'r uwchradd, er mwyn hwyluso'r broses drosglwyddo
- Yr angen i asesu sgiliau Cymraeg disgyblion ar wahanol gyfnodau, er mwyn adnabod unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen e.e wrth iddynt drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd
- Sicrhau defnydd effeithiol o gyfathrebu dwyieithog rhwng y cartref a'r ysgol e.e. defnyddio apiau perthnasol
- Gwneud defnydd effeithiol o gyfathrebu dwyieithog e.e. darparu rhestr o derminoleg allweddol a fyddai o gymorth i rieni
- Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu mewn a thu allan i'r ysgol

Os ydych am ddarllen mwy, dilynwch y ddolen ganlynol:

[Welsh Language Executive Summary PR0005 August 23.pdf](https://research.wales.evidencecentre.co.uk/Welsh-Language-Executive-Summary-PR0005-August23.pdf) (research.wales.evidencecentre.co.uk)

Un neges bwysig i'w chofio ac un y dylid ei gwerthfawrogi yw'r rôl allweddol sydd gan athrawon i'w chwarae wrth drosglwyddo iaith. Faint o unigolion o deuluoedd di-Gymraeg sy'n hynod o ddiolchgar i'w hathrawon am y rhan chwaraeon nhw yn eu taith i fod yn siaradwyr rhugli? Efallai eich bod chi'n un o'r bobl hynny – os felly, beth am rannu eich stori? Mae clywed hanesion felly yn hwb i'r galon.

IS-LYWYDD 2023-24

Ceri Dafydd Evans

Llongyfarchiadau i Ceri Dafydd Evans ar ddod yn is-lywydd UCAC am y flwyddyn 2023-24. Yn y llun, fe'i gwelir yn derbyn medal yr is-lywydd oddi wrth yr Ysgrifennydd Cyffredinol yng nghyfarfod y Cyngor Cenedlaethol yn y Llyfrgell Genedlaethol ar 20 Hydref.

Mae'r rhai hynny ohonoch sy'n dod i'r Gynhadledd eisoes wedi cyfarfod â Ceri. Mae'n athro Cemeg, Ffiseg a Gwyddoniaeth yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth yng Nghaerfyrddin. Mae'n teimlo'n gryf y dylid sicrhau fod y cwrs gwyddoniaeth yn fwy perthnasol i'r gweithle ar gyfer disgyblion is eu gallu. Mae gwyddoniaeth yn chwarae rhan bwysig mewn amryw swyddi ond nid yw hynny'n cael ei wneud yn ddigon amlwg mewn cyrsiau gwyddonol, yn ei farn ef.

Mae'n gynrychiolydd UCAC yn ei ysgol ac yn frwd dros sicrhau tegwch i weithwyr ac amddiffyn eu hawliau. Teimla fod angen i athrawon fwynhau'r dysgu a'r addysgu yn y dosbarth yn hytrach na phoeni am wleidyddiaeth y gwaith a'r pwysau cynyddol yn nhermau gwaith papur.

Yn ei amser hamdden, mae Ceri'n mwynhau darllen, cerddoriaeth, gwyddoniaeth a rygbi.

Pob dymuniad da iddo yn ystod ei flwyddyn fel is-lywydd!



Colli un o Gyn-Swyddogion UCAC

Daeth y newyddion trist ddechrau mis Medi am farwolaeth un o gyn-weithwyr UCAC, sef Gareth Miles. Wedi iddo gymhwysu'n athro ym Mhrifysgol Aberystwyth, bu'n athro Saesneg yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch, cyn symud i fod yn athro Saesneg a Ffrangeg yn Ysgol Morgan Llwyd. Wedi cyfnod byr yn Ysgol Dyffryn Nantlle, rhoddodd y gorau i fod yn athro ac yn 1976 dechreuodd ar ei waith fel Trefnydd Cenedlaethol UCAC. Symudodd bryd hynny i Dde Cymru, gan ymgartrefu ym Mhontypridd.

Roedd Gareth Miles yn ymgyrchydd gwleidyddol ac ieithyddol, yn awdur disglair ac yn sylwebydd praff ar

y byd a'i bethau. Creodd argraff mewn sawl maes, gan gynnwys yn rhinwedd ei swydd fel Trefnydd Cenedlaethol UCAC. Fe'i cofir yn drefnydd cenedlaethol eithriadol o effeithiol ac roedd ei adnabyddiaeth o Gymru gyfan yn allweddol wrth i'r Undeb gynyddu yn ei dylanwad yn nyddiau cynnar y drafodaeth genedlaethol ar ddatganoli addysg. Wedi ei ddyddiau gydag UCAC, aeth ati o 1982 ymlaen i ysgrifennu'n llawn amser, ond roedd yn parhau'n llais cadarn o fewn TUC Cymru.

Rydym yn estyn ein cydymdeimlad dwysaf i'w deulu a'i gyfeillion.

Addysg Chweched Dosbarth

O fis Ebrill 2024 bydd newidiadau i'r modd yr ariennir addysg ôl-16, gan gynnwys y chweched dosbarth mewn ysgolion. Cliciwch ar y ddolen isod i gael mwy o wybodaeth.

[Taflen ffeithiau 1: Sut bydd sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn effeithio ar ysgolion a gynhelir sydd â chweched dosbarth? \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru)